



# Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

## **Pam fod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn bwysig i Brifysgol Bangor?**

Mae Prifysgol Bangor yn parhau i adeiladu ar y cyflawniadau a'r cynnydd a wnaed ers Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyntaf y Brifysgol a pharhau ag ymrwymiad hirsefydlog y Brifysgol i gydraddoldeb ac amrywiaeth. I ni, mae hyn yn deillio'n ôl i union sylfaen y Brifysgol sy'n gorwedd yn y cyfraniadau gwirfoddol a wnaed gan bobl leol, gan gynnwys chwarelwyr a ffermwyr, i sefydlu prifysgol ym Mangor yn 1884. Ymfalchiwn hefyd yn ein hymrwymiad i amgylchedd dwyieithog a ein treftadaeth ddiwylliannol Gymreig.

Mae prifysgolion yn chwarae rhan bwysig wrth symud yr agenda cydraddoldeb yn ei blaen yng Nghymru. Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i'n cyfrifoldebau i gyflawni dyletswyddau cyffredinol Deddf Cydraddoldeb 2010 a'r dyletswyddau sy'n benodol i Gymru. Mae ein hymrwymiad i gydraddoldeb wedi'i nodi yn ein datganiad cenhadaeth sy'n cynnwys cyfeiriad at ein nod o gael ein cydnabod am y profiad cynhwysol a ddarparwn i staff a myfyrwyr.

Mae Prifysgol Bangor wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd sy'n cydnabod ac yn gwerthfawrogi gwahaniaethau pobl ac yn adeiladu ar gryfderau'r gwahaniaethau hynny i Fangor ac yn cefnogi'r holl staff a myfyrwyr i wneud y gorau o'u potensial.

Gwneir yr ymrwymiad hwn gan gyfeirio'n benodol at Oed, Anabledd, Hunaniaeth Draws, Priodas a Phartneriaeth Sifil, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Hil neu ethnigrwydd, Credo a Di-gred Crefyddol, Rhyw/Rhyw a Chyfeiriadedd Rhywiol.

Mae'r Brifysgol hefyd yn anelu at gyflawni gofynion Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, sef:

**Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon**, aflonyddu ac erledigaeth ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf

**Hyrwyddo cyfle cyfartal** rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a'r rhai nad ydynt

**Meithrin perthynas dda** rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a'r rhai nad ydynt.

## **Ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol**

[Cynllun Cydraddoldeb Strategol \(CCS\) 2020 - 2024](#)

Mae Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol (CCS) yn ofyniad statudol ar bob corff cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Wrth ddatblygu ein hamcanion cydraddoldeb newydd, buom yn myfyrio ar ein cynnydd ers y Cynllun Cydraddoldeb Strategol (CCS) diwethaf ac wedi ymgynghori â staff a myfyrwyr ynghylch eu barn am gydraddoldeb yn y Brifysgol a'r camau y dymunant eu gweld yn cael eu rhoi ar waith. Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 yn, a bydd, yn sail i'r Brifysgol barhau i ddatblygu'r agenda cydraddoldeb. Mae'n gatalydd ar gyfer newid wrth inni ymgorffori ein hymrwymiad i gydraddoldeb ym mhopeth a wnawn.

Mae'r CCS yn nodi ein hymrwymiad i ddarparu amgylchedd cynaliadwy o'r ansawdd uchaf ar gyfer cyflogaeth, ymchwil ac astudio ac i sicrhau lles ein tua 2,000 o staff a 12,000 o fyfyrwr. Ein nod yw darparu amgylchedd diogel, croesawgar a chynhwysol i'n staff, myfyrwyr a'r gymuned rydym yn ei gwasanaethu. Rydym yn deall bod ein gweithgareddau yn cael effeithiau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ac mai datblygu cynaliadwy yw'r broses o wella llesiant ym mhob un o'r pedair agwedd yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

### **Adroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol**

Rydym yn adrodd ar ein gweithgareddau a'n cynnydd yn flynyddol. Cyhoeddir ein [Hadroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol ac Adroddiadau Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau](#) ar ein gwefan yn ystod mis Mawrth bob blwyddyn.

Er mwyn mynd i'r afael â materion yn ymwneud â rhyw, rydym wedi ymrwymo i Siarter Athena SWAN ac i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â hil ac ethnigrwydd rydym wedi ymuno â'r Siarter Cydraddoldeb Hiliol.

### **Sut rydym yn gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y Brifysgol?**

I wneud hyn mae gennym gyfres o grwpiau sy'n adolygu ein cynnydd yn erbyn y cynllun gweithredu ac yn mynd i'r afael ag unrhyw faterion cydraddoldeb sy'n codi. Mae hyn yn cynnwys:

#### **Y Grŵp Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

- dan gadeiryddiaeth yr Athro Nicky Callow dyma'r uwch grŵp sy'n gyfrifol am faterion cydraddoldeb yn y Brifysgol.

Pwrpas y grŵp yw darparu dull strategol o gyflawni nodau ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 – 2024 a chyfrannu at [Strategaeth 2030](#) ein Prifysgol.

### **Pwyllgorau Cydraddoldeb y Colegau**

Mae gan bob un o'r tri Choleg Bwyllgor Cydraddoldeb, pwrpas Pwyllgorau Cydraddoldeb y Colegau yw:

- Sicrhau bod y Coleg yn ystyried cydraddoldeb a chynhwysiant wrth iddo ddatblygu ei strategaethau, polisiau a mentrau a gweithio gyda Chyfarwyddwr perthnasol y Coleg i fynd i'r afael â chydraddoldeb mewn meysydd penodol.

- Sicrhau bod polisïau a datblygiadau allweddol yn cael eu hasesu o ran effaith cydraddoldeb ac adolygu'r Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhelir yn y Coleg.
- Adolygu ystadegau'r gweithlu a myfyrwyr i nodi meysydd posibl o anfantais y mae angen mynd i'r afael â hwy a datblygu cynllun gweithredu o fewn y Coleg i fynd i'r afael ag unrhyw faterion.
- Sicrhau bod staff a myfyrwyr yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cydraddoldeb a hyrwyddo cysylltiadau da yn y Coleg. Yn y cyd-destun hwnnw hyrwyddo a monitro gweithgarwch hyfforddi i sicrhau bod 100% o'r staff wedi dilyn yr hyfforddiant cydraddoldeb ar-lein, hyfforddiant ar ragfarn anymwybodol a bod pob rheolwr wedi mynychu'r gweithdy 'Cydraddoldeb i Reolwyr'.
- Cydlynu ymdrech a monitro cynnydd tuag at bob Ysgol yn cyflawni gwobrau Athena SWAN.
- Gweithio gyda'r Pwyllgor Ymchwil i sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei ystyried yn y REF.
- Adolygu unrhyw gwynion a materion a amlygir gan staff a myfyrwyr sy'n ymwneud â chydraddoldeb a nodi pwyntiau gweithredu i fynd i'r afael â materion.
- Dod ag unrhyw faterion o bryder sy'n cael effaith ar draws y Brifysgol i sylw'r Grŵp Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.
- Cynnal mentrau i gefnogi diwylliant cynhwysol yn y Coleg.

### **Dyma gysylltiadau Pwyllgor Cydraddoldeb y Coleg:**

Coleg y Celfyddydau, Dyniaethau a Busnes - Sian Owen

Coleg y Gwyddorau Dynol - Lindsey Graham

Coleg y Gwyddorau Amgylcheddol a Pheirianeg - James Balfour

### **Ein Cyfrifoldebau**

Mae gan bawb sy'n aelod o'n Prifysgol gyfrifoldeb i sicrhau bod ein hymrwymiaidau, ein cenhadaeth a'n gwerthoedd yn cael eu gweithredu a'u hyrwyddo. Mae gan wahanol grwpiau o staff gyfrifoldebau gwahanol ac mae rhai o'r rhain wedi'u nodi isod.

#### **Rhaid i bob aelod o staff:**

- Trin pob aelod o gymuned y Brifysgol ag urddas a pharch tuag at eu hawliau a'u credoau.
- Ymateb yn gadarnhaol ac yn gynhwysol i wahaniaethau unigol.
- Herio neu adrodd am achosion o wahaniaethu neu fwlio.

#### **Os ydych yn rheolwr llinell dylech wneud yr uchod i gyd, a:**

- Sicrhau bod Ymrwymiad Cydraddoldeb a Chynllun Gweithredu Strategol y Brifysgol yn cael eu cyfleu i staff newydd.
- Lledaenu gwybodaeth i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.
- Sicrhewch fod yr holl staff yn eich tîm wedi dilyn yr hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth perthnasol.
- Cefnogi anghenion unigol ac amgylchiadau staff fel y gallant berfformio'n effeithiol.

## Os ydych yn Bennaeth Coleg/Ysgol neu'n Gyfarwyddwr Adran Gwasanaethau Proffesiynol dylech wneud yr uchod i gyd, a:

- Sicrhau bod unrhyw gynlluniau strategol yn cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb perthnasol.
- Sicrhau bod Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn cael eu cynnal ar gyfer newidiadau i strategaeth, polisi ac arfer.

## Os ydych yn aelod o staff academiaidd a/neu ymchwil, dylech hefyd:

- Darparu amgylchedd addysgol teg gan sicrhau bod amgylchedd cynhwysol yn cael ei gynnal a'i ddatblygu.
- Ymateb i anghenion amrywiol myfyrwyr wrth ddatblygu deilliannau a deunyddiau dysgu.
- Sicrhewch fod eich gweithgaredd ymchwil yn cadw at egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth a safonau ymchwil moesegol.

## **Deall Eich Cyfrifoldebau o ran Cydraddoldeb**

Rhaid i bawb sy'n rhan o'n Prifysgol ddeall eu cyfrifoldebau o ran cefnogi cydraddoldeb ac felly mae'r Brifysgol yn darparu hyfforddiant sy'n briodol i wahanol rolau yn y Brifysgol.

### **Hyfforddiant Cydraddoldeb**

Mae hyfforddi staff ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth yn amcan allweddol i'r Brifysgol. Yn debyg i gyrff cyhoeddus a sefydliadau AU eraill, mae'r Brifysgol yn ymrwymedig ac yn wir mae ganddi rwymedigaeth gyfreithiol i sicrhau bod pob aelod o staff yn dilyn hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n briodol i'w rôl yn y Brifysgol.

- Rhaid i bob aelod o staff gwblhau'r **modiwl Cydraddoldeb ar-lein** a'r modiwl **Tuedd Anymwybodol** ar-lein fel rhan o'u cyfnod prawf.
- Rhaid i bob rheolwr gwblhau'r **gweithdy Cydraddoldeb i Reolwyr**. Mae'r cwrs hwn yn orfodol i bob aelod o staff sy'n rheoli eraill. Mae'r gweithdy'n annog rheolwyr i ystyried cymhwysiad ymarferol Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Brifysgol o fewn Colegau ac Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol ac yn sicrhau bod rheolwyr nid yn unig yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau o fewn cyd-destun deddfwriaeth cydraddoldeb ond hefyd sut i hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gweithle. .
- Rhaid i reolwyr sy'n ymwneud â recriwtio staff, yn enwedig y rhai sy'n eistedd ar y rhestr fer a phaneli cyfweld, gwblhau'r **gweithdy Recriwtio a Dethol**. Trefnir gweithdai bob deufis ar yr Amserlen Hyfforddi a Datblygu a gellir eu cyflwyno hefyd ar gais i dimau neu adrannau penodol.

Ceir rhagor o wybodaeth am y cyrsiau hyn ar y tudalennau gwe [Datblygu Staff](#) neu drwy gysylltu â Mari Ellis-Roberts [mari.ellis-roberts@bangor.ac.uk](mailto:mari.ellis-roberts@bangor.ac.uk)

Os hoffech drafod unrhyw beth yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, cysylltwch â ni, Nia Blackwell, Swyddog Cydraddoldeb Adnoddau Dynol [n.blackwell@bangor.ac.uk](mailto:n.blackwell@bangor.ac.uk) neu

Helen Munro, Swyddog Cydraddoldeb Myfyrwyr [h.munro@bangor.ac.uk](mailto:h.munro@bangor.ac.uk)